



4.0 Gwirfoddolwyr

Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu
3. Risgiau sy'n gysylltiedig â gwirfoddolwyr
4. Aseidiadau risg
5. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
6. Gwybodaeth bellach
7. Atodiad 1

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu'r camau y gall eich mudiad eu cymryd er mwyn cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel, gan gynnwys gwybodaeth ar sut i gynnal asesiad risg.

Cyflwyniad

Mae asesu a rheoli risg yn rhan hanfodol o 'ddyletswydd gofal' bob dydd i wirfoddolwyr.

Does yr un gweithgaredd yn ddi-risg, ond wrth gynllunio ymlaen llaw a rhagweld beth allai fynd o chwith, gellir dileu risgiau sylweddol a lleihau effaith digwyddiadau niweidiol.



Llun: Grŵp o bobl yn cael trafodaeth

Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu

Mae dull **Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu** Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o reoli diogelwch yn sicrhau dull integredig a chadarn yn hytrach na darn o waith ynysig, untro.



Dolen Allanol

Am wybodaeth bellach, adolygwch:

[Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#)

Cynllunio (Plan)

- Ystyriwch ble'r ydych chi ar hyn o bryd o safbwynt eich gweithgarwch gwirfoddoli a ble y mae angen i chi fod.
- Cofiwch gynllunio ar gyfer newidiadau ac adnabod unrhyw ofynion cyfreithiol penodol a allai fod yn berthnasol i'ch mudiad.

Gwneud (Do)

- **Nodwch eich proffil risg:**
 - Ewch ati i asesu'r risgiau, nodwch beth allai achosi niwed yn y gweithle, a'r hyn y byddwch yn ei wneud er mwyn rheoli'r risgiau.
 - Penderfynwch ar y blaenoriaethau a nodwch y risgiau mwyaf.
- **Trefnwch eich gweithgareddau er mwyn cyflawni'ch cynlluniau:**

Yn benodol, ceisiwch:

 - Gynnwys y gwirfoddolwyr a chysylltu â hwy, fel bod pawb yn glir ynglŷn â'r hyn sydd ei angen ac yn medru trafod materion – datblygu agweddau ac ymddygiad cadarnhaol.
 - Darparu adnoddau digonol a chyingor gwybodus lle bo'r angen.
- **Rhowch eich cynllun ar waith:**
 - Penderfynwch ar y mesurau ataliol ac amddiffynnol sydd eu hangen a'u rhoi yn eu lle.
 - Darparwch yr offer a'r cyfarpar cywir er mwyn cyflawni'r weithgaredd wirfoddoli.
 - Ewch ati i hyfforddi a chyfarwyddo, er mwyn sicrhau bod pawb yn gymwys i gyflawni'u rôl yn ddiogel
 - Darparwch oruchwyliaeth i'r gwirfoddolwr er mwyn sicrhau bod trefniadau i leihau risgiau'n cael eu dilyn.

Gwirio (Check)

- Mesurwch eich perfformiad:
 - Sicrhewch bod eich cynlluniau wedi'u rhoi ar waith, nid yw 'gwaith papur' ar ei ben ei hun yn fesur da o lwyddiant.
 - Gwiriwch pa mor dda mae'r risgiau'n cael eu rheoli ac a ydych yn cwblhau eich nodau. Mewn rhai amgylchiadau gallai archwiliadau ffurfiol fod yn ddefnyddiol.
- Ymchwiliwch i achosion damweiniau, digwyddiadau neu fethiannau agos

Gweithredu (Act)

- Adolygwch eich perfformiad:
 - Dysgwch o ddamweiniau a digwyddiadau, data afiechyd, camgymeriadau a phrofiadau perthnasol, gan gynnwys gan fudiadau eraill.
 - Edrychwch eto ar gynlluniau, dogfennau polisi ac asesiadau risg i weld a oes angen eu diweddarau.
- Gweithredwch ar wersi a ddysgwyd, gan gynnwys rhai o adroddiadau archwilio ac arolygu.

Y gwahanol fathau o risgiau sy'n gysylltiedig â gwirfoddolwyr

Risgiau posibl i wirfoddolwyr

- Mae rhai gweithgareddau gwirfoddol yn beryglus yn eu hanfod, megis gwasanaethau achub mewn argyfwng, neu weithgareddau chwaraeon
- Gall yr amgylchedd lle cynhelir y gwaith gwirfoddol fod yn anniogel
- Efallai nad yw'r gwirfoddolwyr wedi cael yr wybodaeth, yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd angenrheidiol i gyflawni gweithgareddau, neu ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel
- Efallai fod yna ddiffyg eglurder o ran y ffiniau o'r hyn sy'n dderbyniol, fel y bydd gwirfoddolwr yn gweithredu y tu hwnt i lefel ddiogel ei hyfforddiant neu ei allu
- Efallai nad yw data personol gwirfoddolwyr yn cael ei gadw'n gyfrinachol
- Gallai gwirfoddoli unigol arwain at straen.

Risgiau posibl i'r mudiad

- Gellir niweidio enw'r mudiad os yw gwirfoddolwyr yn ei gamgynrychioli neu'n siarad neu'n ymddwyn yn amhriodol
- Torri cyfrinachedd
- Dwyn, twyll neu gamddefnyddio adnoddau
- Risg o ymglyfreitha neu hawliad sifil yn dilyn digwyddiadau y gellid bod wedi'u hosgoi
- Llai o gapasiti i gyflawni

Risgiau posibl i gleientiaid neu fuddiolwyr

- Gwirfoddolwr yn cam-drin cleientiaid neu fuddiolwyr
- Darparu gwybodaeth neu gyngor anghywir
- Gofal, gwasanaeth neu ymddygiad o safon annigonol

Risg posibl o niwed i gydweithwyr

- Camu y tu hwnt i ffiniau/awdurdod rôl wirfoddol
- Perfformiad is na'r safon gan wirfoddolwr sy'n gorfodi eraill i ddelio gyda'r canlyniadau
- Ymddygiad gwahaniaethol neu aflonyddu

Mae defnyddio canllawiau a hyfforddiant priodol ar arferion diogel, monitro neu oruchwylio'n barhaus a defnyddio cyfarpar diogel i gyd yn fesurau y gellir eu cymryd i leihau'r tebygolrwydd o broblemau'n codi

Fel arall gallech ystyried addasu gweithgaredd gwirfoddol, neu ei atal yn gyfan gwbl os credir bod y risg yn annerbyniol

Cynnal Aseiad Risg

Mae proses aseiad risg yn helpu i ganfod risgiau sylweddol ac yn darparu fframwaith ar gyfer canfod camau y gellir eu cymryd i leihau'r risgiau hyn. Nid cael gwared ar bob risg yw pwrpas aseiad risg, ond yn hytrach sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r prif risgiau a'r hyn sydd angen i chi ei wneud er mwyn eu rheoli'n gyfrifol.

Nid creu swm anferthol o waith papur yw'r pwrpas, chwaith, ond yn hytrach adnabod mesurau synhwyrol er mwyn rheoli'r risgiau o fewn eich mudiad. Mae gofyn am agwedd '**resymol ymarferol**' pan yn rheoli risgiau. Golyga hyn gydbwysio lefel y risg yn erbyn y mesurau angenrheidiol i reoli'r risg go iawn o ran arian, amser neu drafferth. Nid y nod yw gosod rheoliadau na chyfyngiadau afrealistig neu ormodol ar wirfoddolwyr na chreu baich llethol i'r mudiad.

Os ydych yn cyflogi llai na phump o bobl, mae'n werth nodi hefyd nad oes angen i chi lunio aseiad risg. Os ydych yn cyflogi mwy na phump o bobl mae'n ofyniad cyfreithiol arnoch i lunio aseiad risg.

Wedi i chi gynnal aseiad risg mae'n bwysig ei adolygu'n rheolaidd. Dylai'r rheoliadau a osodwyd mewn lle er mwyn rheoli risgiau adlewyrchu'r angen am fonitro er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu dilyn a'u bod yn parhau'n effeithiol wrth symud ymlaen.

Mae chwe cham clir mewn aseiad risg

1. Canfod y peryglon posibl
2. Penderfynu pwy allai gael eu niweidio a sut
3. Gwerthuso'r risgiau (rhoi sgôr iddynt) a phenderfynu ar ragofalon angenrheidiol
4. Cofnodi'ch canfyddiadau arwyddocaol
5. Adolygu'ch aseiad a'i ddiweddarau os oes angen
6. Mae dysgu o ddigwyddiadau yn ffactor allweddol mewn rheolaeth risg effeithiol



Dolen Allanol

Gellir lawrlwytho templed ar gyfer cynnal aseiad risg yma a'i addasu at eich dibenion eich hun:

[Templed Aseu Risg](#)

Beth i'w asesu?

Risgiau yn y mudiad cyfan

Fel mudiad mae'n bosib bod gennych bolisiau sy'n rhoi sylw i faterion megis defnyddio cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwydd, gweithio'n unigol, cyfrinachedd, diogelu, iechyd a diogelwch, diogelu data. Mae'r rhain i gyd yn cynnwys canfod risg a gweithdrefnau rheoli priodol i ryw raddau. Ond nid yw'r rhain ar eu pen eu hunain yn ddigon.

Asesu gweithgareddau ac amgylcheddau

Gellir defnyddio templed fel yr un uchod i asesu risgiau digwyddiad neu weithgaredd – gan ganolbwyntio ar y gweithgaredd a'r amgylchedd lle y bydd yn cael ei gynnal. Gall hyn fod yn ddigwyddiad neu daith untro, neu'n weithgaredd rheolaidd.

Ar gyfer digwyddiadau rheolaidd gall fod yn ddefnyddiol i gynhyrchu, o'ch asesiad risg cychwynnol, '**restr wirio**' o'r hyn y mae angen i drefnydd y digwyddiad ei wneud i sicrhau bod y digwyddiad yn rhedeg yn ddiogel ac yn esmwyth.

Asesu rôl gwirfoddolwr

Dylid nodi rôl gwirfoddolwr, er mwyn eglurder. Gellir ei ddefnyddio wedyn fel sail i asesu'r risg gysylltiedig. Yn aml bydd hyn yn helpu i lwyio'r blaenoriaethau ar gyfer sefydlu a hyfforddi'r gwirfoddolwr, er enghraifft. Bydd yn aml yn helpu i lunio cwmpas y rôl gan gynnwys rhai ffiniau priodol (e.e. **hynny yw, y terfynau lle mae risgiau'n dod yn annerbyniol**). Mae angen i ffiniau rôl wirfoddol cytunedig gael eu cyfathrebu'n glir i wirfoddolwyr ac, os oes angen, i gleientiaid a staff.

Mae'n bosib y bydd polisiau presennol y mudiad yn delio gyda llawer o'r risgiau a ganfyddir. Ond, i fod yn effeithiol, rhaid cyfathrebu'r rhain i wirfoddolwyr hefyd fel sy'n briodol. Mae'r disgrifiad o'r rôl wirfoddol yn adnodd gwerthfawr wrth recriwtio. Os oes angen profiad neu rinweddau penodol, dylai ddweud hynny. Gall recriwtio gwirfoddolwyr sy'n addas iawn i'r rôl fod yn elfen bwysig o reoli risg. Mae hyn yn arbennig o wir mewn achosion lle mae'r rôl wirfoddol yn cyflwyno lefel uchel o risg (e.e. **ymdrech gorfforol**) neu gyfrifoldeb (e.e. **cysylltiad â chleientiaid agored i niwed**)



Dolen Allanol

Dylid nodi rôl gwirfoddolwr, er mwyn eglurder, gellir lawrlwytho templed:

[Templed Disgrifiad Gwirfoddolwr](#)

Asesu unigolion

Mewn rhai achosion bydd angen asesiad risg sy'n canolbwyntio ar unigolion. Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal ar gleientiaid fel mater o drefn cyn i wirfoddolwyr ymweld â'u cartref, er enghraifft. Wedyn bydd angen cyfathrebu gwybodaeth berthnasol i'w gwirfoddolwr.

Yn achos gwirfoddolwr ag anghenion arbennig, bydd asesiad risg o'i alluoedd mewn perthynas â'r gweithgareddau y bydd yn eu cynnal neu'r amgylcheddau y bydd yn gweithredu ynddynt yn helpu i ganfod unrhyw gymorth neu addasiadau angenrheidiol. Mae hyn yn bwysig er mwyn dangos ymrwymiad i gyfle cyfartal. Edrychwch ar yr atodiad am ragor o fanylion.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

Mae gan gyflogwyr gyfrifoldebau tuag at bobl nad ydynt yn gyflogeion, a allai gael eu heffeithio gan weithgareddau'r cyflogwr - fel gwirfoddolwyr ac aelodau o'r cyhoedd:

'...cyflawni'r ymrwymiad hwn yn y fath fodd er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol bosib, nad yw'r unigolion na chânt eu cyflogi ganddo ond y gellir effeithio arnynt, trwy hynny, yn dod i gysylltiad â risgiau i'w hiechyd na'u diogelwch'

'...rhoi i'r unigolion (nad ydynt yn weithwyr cyflogedig iddo) y gallai'r modd y mae'n cyflawni'r ymrwymiad hwn effeithio arnynt, y wybodaeth a bennir am y cyfryw agwedd ar y ffordd y mae'n cyflawni ei ymrwymiad ag y gall effeithio ar eu hiechyd neu'u diogelwch'



Dolen Allanol

Gallwch ddarllen y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn ei chyfanrwydd ar wefan ddeddfwriaeth y llywodraeth

[Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974](#)

Gwybodaeth bellach

Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
www.hse.gov.uk/managing/plan-do-check-act.htm

Iechyd a Diogelwch syml
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
www.hse.gov.uk/simple-health-safety/index.htm

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr - Safon
Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr
<https://iiv.investinginvolunteers.org.uk/download-the-standard>

Taflenni gwybodaeth ychwanegol
Cefnogi Trydydd Sector Cymru

4.8.1 Asesiadau risg – gwirfoddolwyr sy'n gweithio o gartref

Atodiad 1

Rhai cwestiynau i'w hystyried wrth Adnabod Risgiau

Y gwirfoddolwr:

- Oes unrhyw ofynion hanfodol wrth ddewis gwirfoddolwyr i'r rôl hon – neu unrhyw beth a fyddai'n rhwystro gwirfoddolwr rhag cael ei leoli?
- Oes gan y gwirfoddolwr anghenion neu ofynion arbennig?

Natur y rôl:

- A oes risg o drais neu gamdriniaeth?
- A yw cyfrinachedd yn bryder?
- A oes risg o niwed corfforol neu anaf e.e. codi, straen ar y llygaid (o or-ddefnydd o sgrîn VDU), anaf straen ailadroddus?
- A yw'r rôl wirfoddoli yn debygol o fod yn anodd yn emosiynol?
- A yw'r rôl yn debygol o ofyn am ddefnydd o sylweddau peryglus?
- A fydd y gwirfoddolwr yn cael cyswllt â phobl agored i niwed neu bobl ifanc, ayyb?
- A fydd y gwirfoddolwr yn gweithredu'r rôl ar ein ben ei hun h.y. "gweithio unigol"?

Yr amgylchedd:

- A yw'r amgylchedd gwaith yn addas i'r dasg (ee gweithfan, storfeydd diogel, preifatrwydd)

Cyfarpar:

- A yw'r cyfarpar yn briodol, yn ddiogel, ac yn addas i'r dasg ac a yw gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi i'w ddefnyddio?
- A oes angen cyfarpar diogelu/diogelwch?

Arall:

- A fydd costau ynghlwm â'r gwirfoddoli, ac a fyddant yn cael eu had-dalu?
- A oes cyfyngiadau neu ffiniau o ran yr hyn a ddisgwylir o fewn y rôl wirfoddol hon?

Rhai camau gweithredu posibl i reoli neu leihau risgiau:

- Darparu gwybodaeth ar ddiogelwch
- Sicrhau cefnogaeth/gouchwyliaeth gefnogol
- Darparu/gwirio cyfarpar
- Talu treuliau
- Cytuno ar y gofynion o safbwynt adrodd/ cadw cofnodion
- Cytuno ar/atgyfnerthu rhai 'rheolau sylfaenol'
- Hyfforddiant a sefydlu
- Diwygio'r disgrifiad rôl
- Datblygu/diwygio polisiau sefydliadol
- Gweithdrefnau mewn argyfwng



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.